# Y Pwyllgor Busnes

## Cofnodion BC(3)13-10

**Dyddiad:** Dydd Mawrth, 4 Mai 2010
**Amser:** 08.30
**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod Llawr 4, yr Uned Gorfforaethol

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Dafydd Elis-Thomas, y Llywydd (Cadeirydd)
Jane Hutt, y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru
Alun Cairns, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig
Peter Black, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

### Swyddogion yn bresennol

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad
Marion Stapleton, Swyddfa Arweinydd y Tŷ
Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol
Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Deddfwriaeth
Sulafa Halstead, Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad
Anna Daniel, Clerc y Pwyllgor Busnes

### 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

### 2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

**BC(3)12-10 (Cofnodion drafft) - Dydd Mawrth 27 Ebrill 2010**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf ddrafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, byddant yn cael eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi.

**I'w weithredu gan: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

### 3. Busnes i ddod

Busnes yr wythnos hon - BC(3)13-10(p1)

3.1 Cytunodd y Pwyllgor na fydd y Cyfnod Pleidleisio dydd Mawrth a dydd Mercher yn digwydd cyn 16.30.

3.2 Nododd y Pwyllgor drefn y busnes ar gyfer 4 a 5 Mai 2010.

**Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)13-10(p2)**

3.3 Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

**Amserlen busnes y Llywodraeth a busnes heblaw busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)13-10(p3)**

3.4 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn y busnes y Cynulliad.

3.5 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn y busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

### 4. Deddfwriaeth

**(i) Deddfwriaeth Aelodau: llythyr gan Jeff Cuthbert ynglŷn â'i Fesur arfaethedig ynghylch Hawliau Gweithwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol - BC(3)13-10(p4)**

4.1 Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar gais a wnaed gan Jeff Cuthbert i atal Rheol Sefydlog 23.105 (sy'n nodi bod angen cyflwyno Mesur arfaethedig Aelod o fewn chwe mis ar ôl i'r Cynulliad roi'r caniatâd i fwrw ati), i'w alluogi i gyflwyno ei Fesur arfaethedig ar Hawliau Gweithwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ar ôl y dyddiad cau. Gofynnodd y Pwyllgor i Jeff Cuthbert adrodd yn ôl ar y cynnydd a wnaed, i alluogi'r Pwyllgor i adolygu'r datblygiadau ar ddiwedd mis Mehefin.

**(ii) Rheoli'r amserlen ddeddfwriaethol: llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol - BC(3)13-10(p5)**

4.2 Nododd y Pwyllgor lythyr gan y Cwnsler Cyffredinol.

## 5. Busnes arall

### (i) Adolygiad o ddyddiadau toriadau 2010 - 2011 - BC(3)12-10(p6)

5.1 Cadarnhaodd y Pwyllgor Busnes y dyddiadau canlynol ar gyfer toriadau:

Toriad yr haf - Dydd Llun 19 Gorffennaf 10 - Dydd Sul 19 Medi 10

Hanner tymor yr hydref - Dydd Llun 25 Hydref 10 - Dydd Sul 31 Hydref 10

5.2 Yn ogystal, adolygodd y Pwyllgor y dyddiadau arfaethedig ar gyfer hanner tymor y gwanwyn (Dydd Llun 21 Chwefror 11 - Dydd Sul 27 Chwefror 11).

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**